THE INSOLVENCY SERVICE

www.insolvency.gov.uk

CANLLAWIAU I GYFARWYDDWYR

AM DDATODIAD GORFODOL

(Dirwyn i ben gan y llys)

Pryd? Ble? Sut? Pwy? Beth?

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE

INVESTOR IN PEOPLE

A BERR SERVICE

Cynnwys

1. Am y canllawiau hyn
Beth yw ansolfedd? 4
Beth yw'r Gwasanaeth Ansolfedd? 4
Datodiad gorfodol (dirwyn i ben gan y llys) 4
Pwy sy'n delio â datodiad gorfodol? 5
Derbynyddion swyddogol (DSau) ac ymarferwyr ansolfedd (YAau) 5

2. Datodiad gorfodol (dirwyn i ben gan y llys) - y weithdrefn
A fyddaf yn cael fy hysbysu pan wneir gorchymyn dirwyn i ben? 5
A ellir atal y broses dirwyn i ben unwaith bydd y gorchymyn wedi cael ei wneud? 5
Os yw'r cwmni yn parhau i fasnacha, beth fydd yn digwydd? 6
Beth fydd yn digwydd i mi unwaith bydd fy nghwmni wedi cael ei ddirwyn i ben? 6
Pa wybodaeth sydd raid i mi ei rhoi a phryd? 6
A oes rhaid i mi gyflwyno gwybodaeth am y cwmni i'r DS/YA? 6
A fydd raid i mi dalu unrhyw rai o ddyledion y cwmni? 7
Pryd fydd y cwmni yn peidio â bod? 7
Yn ystod y datodiad hwn, a allaf i weithredu fel cyfarwyddwr cwmni arall? 7
Y drefn yn y mwyafrif o ddatodiadau gorfodol 8
Taliadau i gredydwyr mewn datodiadau gorfodol 10

3. Gwahardd cyfarwyddwyr anghymwys cwmnïau ansolfent
Beth a olygir gan anghymwyso? 10
Pryd gall gwaharddiad ddigwydd? 10
Sut fyddaf i'n gwybod os bydd gorchymyn anghymwyso yn cael ei geisio yn fy erbyn? 11
Beth sy'n digwydd ar ôl i gais anghymwyso gael ei wneud? 11
Cynhelir achosion gwahardd o dan gyfraith sifil, ac nid cyfraith troseddau 11

4. Achosion troseddol
Pa achosion troseddol a ellir eu cymryd? 11

5. Lle i fynd am ragor o wybodaeth
A phwy y dylech gysylltu 12
Beth i'w wneud os nad ydych yn fodlon gyda'r ffordd y deliwyd â'r datodiad 12
Sut i gael gafael ar fwy o gopïau o gyhoeddiadau'r Gwasanaeth Ansolfedd 12

6. Gweithdrefnau ansolfedd arall
Gweinyddiaeth 13
Sut penodir gweinyddwr? 13
Pryd mae angen gorchymyn llys? 14
Beth mae'r gweinyddwr yn ei wneud? 14
Pa mor hir y mae gweinyddiaeth yn parhau? 14
Derbynyddiad gweinyddol 14
Trefniant gwirfoddol i gwmni) 15
Datodiad gwirfoddol i gredydwyr. 15
Datodiad gwirfoddol aelodau 15

7. Termau ansolfedd 16

8. Deddf Diogelu Data 1998 - Sut yr ydym yn casglu a defnyddio gwybodaeth 20

1. Am y canllawiau hyn

Mae'r Canllawiau hyn ar gyfer cyfarwyddwyr unrhyw gwmni sydd yn rhan o ddatodiad gorfodol (eu dirwyn i ben gan y llys) yng Nghymru a Lloegr. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am wahardd cyfarwyddwyr cwmni a throseddau mewn perthynas â chwmni. Ceir crynodeb hefyd o'r gweithdrefnau ansolfedd eraill sy'n gallu bod yn berthnasol i gwmnïau ac eglurhad o rai termau ansolfedd cyffredin.

Mae'r gweithdrefnau yn berthnasol i gwmnïau a phartneriaethau yng Nghymru a Lloegr yn unig. Yn ôl y gyfraith, mae'r term "cyfarwyddwr" yn gymwys am unrhyw un sydd yn gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni, p'run ai yw'n cael ei alw yn gyfarwyddwr ai peidio. Mae'r gyfraith yr un fath i, er enghraifft, cyfarwyddwyr "gweithredol" ac "anweithredol".

Beth yw ansolfedd?

Y disgrifiadau mwyaf cyffredin o ansolfedd yw nad yw'r cwmni yn gallu talu ei ddyledion pan fyddant yn ddyledus neu fod gwerth ei asedau yn llai na maint ei rwymedigaethau, neu'r ddau. "Mae'r term "ansolfedd" hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r gweithdrefnau ffurfiol amrywiol all fod yn berthnasol i unigolyn neu i gwmni.

Y Gyfraith a ddefnyddir i weinyddu'r mwyafrif o weithdrefnau ffurfiol yw Deddf Ansolfedd 1986. Mae cyfraith ansolfedd yn rhoi trefn i ddelio'n deg gydag asedau'r unigolyn neu gwmni ansolfent a hawliadau'r credydwyr. Mae'r gyfraith hefyd yn delio â beth sy'n digwydd i'r unigolyn neu'r cwmni yn dilyn ansolfedd.

Beth yw'r Gwasanaeth Ansolfedd?

Mae'r Gwasanaeth Ansolfedd yn Asiantaeth Weithredol o fewn yr Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (BERR). Mae'r Gwasanaeth Ansolfedd, drwy ei Dderbynwyr Swyddogol:

- yn gweinyddu ac archwilio busnes methdalwyr a chwmnïau sydd yn destun datodiad gorfodol
- yn sefydlu'r rhesymau am yr ansolfedd
- ac yn adrodd ar gamymddwyn ar ran methdalwyr a chyfarwyddwyr.

Nid yw'r Gwasanaeth Ansolfedd yn ymwneud â thrafod achosion gweinyddu, derbyniadau gweinyddol, datodiadau gwirfoddol na'r mwyafrif o drefniadau gwirfoddol o ddydd i ddydd.

Datodiad gorfodol (dirwyn i ben gan y llys)

Gweithdrefn ansolfedd yw hon sydd yn berthnasol i gwmnïau (a phartneriaethau) ac mae'n dechrau gyda gorchymyn llys - gorchymyn dirwyn i ben. Cyflwynir deiseb i'r llys, fel rheol gan gredydwr, yn dweud fod swm o arian yn ddyledus gan y cwmni ac na all y cwmni ei dalu. Gellir ei gyflwyno hefyd gan y cwmni ei hun, ei gyfarwyddwyr neu ei gyfranddalwyr.

Gellir gwneud gorchymyn dirwyn i ben hyd yn oed os nad oes gan y cwmni unrhyw asedau neu mae'n anghytuno â'r maint sy'n cael ei hawlio. Dylid datrys unrhyw anghydfod am ddyledion gyda'r credydwr(wyr) cyn gwneud gorchymyn dirwyn i ben oherwydd mae effeithiau'r gorchymyn yn ddifrifol.

Mae dewisiadau eraill heblaw datodiad cwmni ar gael. Os yw eich cwmni yn wynebu problemau ariannol, hyd yn oed dros dro, dylech ystyried gofyn am gyngor eich cynghorydd proffesiynol, cyfreithiwr, cyfrifydd cymwysedig neu ymarferydd ansolfedd awdurdodedig; gall peidio gwneud hynny gael canlyniadau difrifol.

Mae sefydliadau eraill yn cynnig cyngor ansolfedd a chyngor dyledion hefyd. Mae rhai ohonynt yn gwbl gyfrifol ac yn cynnig gwasanaeth proffesiynol. Fodd bynnag, mae eraill yn cael eu rheoli gan unigolion heb gymwysterau amlwg, sydd i'w gweld yn cael eu hysgogi'n bennaf gan yr awydd i fanteisio ar sefyllfa sydd eisoes yn anodd. Yn neilltuol, byddwch yn wyliadwrus os cewch ymholiadau diofyn drwy'r post neu dros y ffôn.

Pwy sy'n delio â datodiad gorfodol?

Y Derbynnydd Swyddogol (DS) sydd yn ymdrin â chamau cynnar datodiad swyddogol. Bydd y DS yn dweud wrth gredydwyr y cwmni a chyfranwyr (cyfranddalwyr yn bennaf) bod y cwmni yn cael ei ddirwyn i ben. Os oes asedau sylweddol, gellir penodi Ymarferydd Ansolfedd (YA) fel diddymwr yn lle'r DS, un ai gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu yng nghyfarfod cyntaf y credydwyr neu gyfranwyr (cyfranddalwyr).

Rôl y diddymwr yw troi asedau'r cwmni yn arian, talu'r ffioedd a thaliadau sy'n codi o'r datodiad a rhannu unrhyw arian sy'n weddill i'r credydwyr. Mewn achosion prin iawn efallai bydd arian dros ben ar gael i'w rannu i'r cyfranddalwyr.

Derbynyddion swyddogol (DSau) ac ymarferwyr ansolfedd (YAau)

Mae DS yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac maent yn swyddogion o'r llys y maent ynghlwm iddo.

Yn ogystal â gweinyddu achosion, mae gan DS ddyletswydd i archwilio materion unigolion mewn methdaliad a chwmnïau sydd mewn datodiad gorfodol. Maent yn adrodd unrhyw dystiolaeth o droseddau ac ymddygiad troseddol sy'n gwneud i unigolion fod yn anaddas i fod yn gyfarwyddwr cwmni i Wasanaethau Corfforaethol a Busnes Y Gwasanaeth Ansolfedd.

Mae YAau yn gweithio yn y sector preifat. Cyfrifyddion neu gyfreithwyr ydyn nhw fel arfer. Rhaid iddynt gael eu hawdurdodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu gan un o'r Cyrff Proffesiynol Cydnabyddedig (CPC) cyn gallant weithredu fel YA. Mae'r mwyafrif o YAau yn cael eu hawdurdodi gan CPCau.

Lle bydd YAau yn gweithredu fel derbynyddion gweinyddol, gweinyddwyr neu ddiddymwyr mewn datodiadau gwirfoddol credydwyr, maent yn adrodd tystiolaeth o ymddygiad anghymwys gan gyfarwyddwyr yn y trafodion hynny i Wasanaethau Corfforaethol a Busnes Y Gwasanaeth Ansolfedd.

2. Datodiad gorfodol (dirwyn i ben gan y llys) - y weithdrefn

Gallwch edrych ar y siartiau llif am 'Y drefn yn y mwyafrif o ddatodiadau gorfodol' a 'Taliadau i gredydwyr mewn datodiadau gorfodol'.

A fyddaf yn cael fy hysbysu pan wneir gorchymyn dirwyn i ben?

Fel cyfarwyddwr y cwmni dylech wybod beth yw ei sefyllfa ariannol ac a oes credydwyr yn pwyso am daliadau drwy lythyr, hawliadau statudol ac achosion llys. Gall y rhain arwain at ddeiseb i ddirwyn y cwmni i ben.

Pan wneir gorchymyn dirwyn i ben, bydd y llys yn hysbysu'r DS, a fydd wedyn yn anfon rhybudd o'r gorchymyn i'r cyfarwyddwyr. Mewn rhai achosion bydd angen i'r DS eich cyfweld ar unwaith. Gall hyn ddigwydd os oes materion brys angen sylw mewn perthynas â busnes, gweithwyr neu asedau'r cwmni.

A ellir atal y broses dirwyn i ben unwaith bydd y gorchymyn wedi cael ei wneud?

Dim ond y llys a all roi terfyn ar y broses. Os ydych eisiau i'r llys ganslo gorchymyn dirwyn i ben (proses a elwir yn recission) rhaid i chi wneud cais i'r llys o fewn 7 niwrnod i'r gorchymyn. Gallwch wneud cais hefyd i adolygu neu amrywio'r gorchymyn neu gallwch wneud apêl i lys uwch. Os ydych yn bwriadu cymryd unrhyw gamau, dylech holi am gyngor proffesiynol yn fuan iawn gan gyfreithiwr, cyfrifydd cymwysedig neu ymarferydd ansolfedd awdurdodedig. Rhaid i chi hefyd ddweud wrth y DS a rhaid ichi barhau i gydweithio gyda'r DS yn y cyfamser.

Os yw'r cwmni yn parhau i fasnacha, beth fydd yn digwydd?

Fel rheol, bydd y DS yn ymweld â safle'r cwmni i asesu'r sefyllfa. Mae gan y DS bwerau cyfyngedig i barhau gyda busnes a dim ond mewn amgylchiadau prin iawn y defnyddir y rhain. Bydd unrhyw weithwyr yn cael eu diswyddo a bydd yr asedau a'r safle yn cael eu diogelu. Mae'n annhebygol y bydd masnachu yn parhau.

Beth fydd yn digwydd i mi unwaith bydd fy nghwmni wedi cael ei ddirwyn i ben?

Ni fydd gennych reolaeth dros fusnes, asedau ac eiddo'r cwmni mwyach. Bydd y mwyafrif o'ch pwerau fel cyfarwyddwr yn dod i ben ac, yn gyffredinol, ni fydd gennych hawl, bellach, i weithredu dros neu ar ran y cwmni (mae cyfarwyddwyr yn cadw rhai pwerau cyfyngedig, er enghraifft, gwneud apêl yn erbyn y gorchymyn). Mae'n dilyn na fyddwch yn gallu rheoli materion y cwmni o ddydd i ddydd.

Fodd bynnag, nid yw eich dyletswyddau a chyfrifoldebau fel cyfarwyddwr yn dod i ben. Er enghraifft, efallai bydd yn ofynnol i chi gynorthwyo'r DS i waredu'r asedau.

Os ydych yn weithiwr cyflogedig i'r cwmni yn ogystal, yna bydd eich cyflogaeth yn gorffen gyda'r gorchymyn dirwyn i ben. Bydd y DS/YA yn rhoi manylion i chi am sut i hawlio unrhyw gyflog nas talwyd neu arian arall sy'n ddyledus i chi fel gweithiwr.

Rhaid i chi beidio defnyddio unrhyw rai o asedau'r cwmni i wneud taliadau i gredydwyr neu ar gyfer eich lles a defnydd eich hun

Pa wybodaeth sydd raid i mi ei rhoi a phryd?

Os na chawsoch gyfweliad yn syth ar ôl y gorchymyn dirwyn i ben, bydd y DS yn ysgrifennu atoch i drefnu apwyntiad i chi fynd i'w swyddfa ef neu hi. Bydd y llythyr yn rhoi enw'r unigolyn sy'n delio â'r datodiad i chi ac yn dweud wrthych beth sy'n rhaid i chi ddod gyda chi. Byddwch hefyd yn derbyn holiadur i'w lenwi. Gallwch lenwi'r holiadur hwn ar ein gwefan ar www.insolvency.gov.uk o dan 'Do it online' Gelwir y ffurflen yn PIQ(C).

Yn y cyfweliad, bydd yn rhaid i chi:
- gyflwyno'r holiadur wedi'i lenwi
- trosglwyddo holl lyfrau, cofnodion a gwaith papur busnes y cwmni sydd yn eich meddiant
- rhoi manylion llawn holl asedau a rhwymedigaethau'r cwmni
- dweud wrth y DS os oes unrhyw un arall yn dal asedau neu gofnodion masnacha.

Gellir gofyn i chi:
- ddarparu unrhyw wybodaeth bellach a ofynnir amdani gan y DS neu sy'n berthnasol i'r cwmni, ei fusnes a'i fethiant
- mynychu swyddfa'r DS fwy nag unwaith er mwyn i'r DS fod yn sicr fod ganddynt yr holl wybodaeth ofynnol.
- rhoi datganiad ariannol ar lw (a enwir yn "statement of affairs") yn dangos holl asedau a rhwymedigaethau'r cwmni (ynghyd â gwybodaeth ariannol arall y gellir bod ei hangen) o fewn 21 diwrnod o gael cais i wneud hynny - bydd y DS yn gwneud y cais yn ysgrifenedig.

A oes rhaid i mi gyflwyno gwybodaeth am y cwmni i'r DS/YA?

Oes, mae dyletswydd arnoch i roi gwybodaeth a chydweithredu â'r DS/YA. Mae methu cydweithio yn fater difrifol a gall arwain ar holiad cyhoeddus gan y DS gerbron y llys, lle bydd credydwyr yn gallu eich holi hefyd. Os nad ydych yn mynychu ymchwiliad o'r fath heb roi rheswm da i'r llys, er enghraifft, salwch difrifol, gellir codi gwarant i'ch arestio. Gall y llys drin y ffaith eich bod wedi

methu mynychu neu wrthod rhoi gwybodaeth fel dirmygu'r llys, a gall y gosb am hynny fod yn ddirwy neu garchar neu'r ddau. Bydd hefyd yn ffactor wrth benderfynu a ydych yn gymwys i fod yn gyfarwyddwr.

A fydd yn rhaid i mi dalu unrhyw rai o ddyledion y cwmni?

Efallai bydd raid i chi gyfrannu tuag at asedau'r cwmni os ydych wedi cam-gymhwyso arian y cwmni neu os yw'r cwmni wedi cam-fasnachu neu fasnachu'n dwyllodrus.

Os ydych yn gyfranddaliwr yn y cwmni, gellir gofyn i chi dalu am unrhyw gyfranddaliadau nad ydynt wedi'u talu'n llawn.

Os ydych chi wedi gwarantu unrhyw rai o ddyledion y cwmni, mae hynny'n golygu eich bod wedi cytuno i dalu'r ddyled os na all y cwmni wneud hynny. Pan fydd credydwr yn dod yn ymwybodol o'r datodiad, gellir gofyn i chi wneud taliad llawn yn dibynnu ar dermau'r warant.

Pryd fydd y cwmni yn peidio â bod?

Pan fydd y datodiad wedi'i gwblhau, bydd y DS/YA yn gwneud cais i gael ei ryddhau o swydd datodwr. Mae DS yn cael ei ryddhau gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae YAau yn cael eu rhyddhau yn dilyn cyfarfod terfynol o'r credydwyr. Wedi'i ryddhau, mae'r DS/YA yn anfon rhybudd i'r Cofrestrydd Cwmnïau a bydd y cwmni fel rheol yn cael ei ddiddymu 3 mis yn ddiweddarach. Wedyn, bydd yn peidio bodoli.

Yn ystod y datodiad hwn, a allaf i weithredu fel cyfarwyddwr cwmni arall?

Gallwch weithredu fel cyfarwyddwr cwmni arall oni bai eich bod yn destun gorchymyn gwahardd, yr ydych wedi rhoi ymrwymiad gwahardd, yr ydych yn fethdalwr heb eich rhyddhau neu rydych yn destun gorchymyn neu ymrwymiad cyfyngiadau methdaliad. Rhaid i unigolyn a waharddwyd gael caniatâd y llys i weithredu fel cyfarwyddwr neu i ymwneud â hybu, ffurfio neu reoli cwmni.

Ni allwch fod ynghlwm â chwmni neu fusnes arall sydd â'r un enw neu mae'n defnyddio enw sydd mor debyg fel ei fod yn awgrymu bod cysylltiad â'r cwmni a fethodd. Mae'r cyfyngiad hwn yn parhau am 5 mlynedd ar ôl y dirwyn i ben ac mae'n berthnasol:

- os oeddech yn gyfarwyddwyr neu gyfarwyddwr cysgodol (person sy'n rhoi cyfarwyddiadau y mae cyfarwyddwyr cwmni wedi arfer gweithredu arnynt) y cwmni a fethodd yn y 12 mis cyn y gorchymyn dirwyn i ben, ac
- i unrhyw enw a ddefnyddiwyd gan y cwmni a fethodd yn y 12 mis hwnnw.

Nid yw'r cyfyngiad hwn yn berthnasol os yw'r cwmni arall eisoes wedi cael ei adnabod wrth yr enw hwnnw yn ystod yr holl gyfnod o 12 mis ac nid oedd yn segur yn ystod yr amser hwnnw.

Os nad ydych yn cydymffurfio â'r cyfyngiad hwn neu'n gweithredu fel cyfarwyddwr heb ganiatâd y llys tra byddwch yn fethdalwr heb ei ryddhau neu tra byddwch wedi eich gwahardd, gallwch gael eich ystyried yn bersonol gyfrifol am ddyledion y cwmni newydd neu ei olynydd. Gallwch hefyd fod yn cyflawni trosedd. Os credwch fod y cyfyngiadau hyn yn berthnasol i chi, dylech holi am gyngor am eich sefyllfa eich hun. Mae taflen ar wahân, ‘Re-use of a company name after liquidation’ (Ailddefnyddio enw cwmni ar ôl datodiad) ar gael o'ch swyddfa DS leol neu ar lein ar wefan Y Gwasanaeth Ansolfedd ar www.insolvency.gov.uk. Dylech ddarllen y daflen hon os credwch y byddwch yn gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni arall, gan ei bod yn rhoi manylion rhai eithriadau i'r cyfyngiadau ar ailddefnyddio enw a waharddwyd.

Y drefn yn y mwyafrif o ddatodiadau gorfodol

Am fanylion pellach, gweler adran:
1 2 2 2



Byrfoddau

DS - Derbynnydd Swyddogol
YA - Ymarferydd Ansolfedd
YG - Ysgrifennydd Gwladol

Dangosir yr amserlen mewn llythrennau italeg



Rhoddir disgrifiad o weithdrefnau ansolfedd eraill yn adran 6.
Ceir geirfa lawn o dermau ansolfedd yn adran 7.

Taliadau i gredydwyr mewn datodiadau gorfodol



3. Gwahardd cyfarwyddwyr anghymwys cwmnïau ansolfent

Beth a olygir gan anghymwyso?

Gwneir gorchymyn datgymhwyso gan y llys o dan Ddeddf Gwahardd Cyfarwyddwyr Cwmni 1986. Mae'r Ddeddf yn berthnasol nid yn unig i unigolyn a benodwyd yn ffurfiol fel cyfarwyddwr ond hefyd i'r bobl hynny sydd wedi gweithredu fel cyfarwyddwr ac i gyfarwyddwyr cysgodol.

Heb ganiatâd penodol y llys mae'n gwahardd unigolyn rhag:

- gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni
- cymryd rhan, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, mewn hybu, ffurfio neu reoli cwmni
- bod yn ddatodwr neu weinyddwr cwmni
- bod yn dderbynnydd neu reolwr eiddo cwmni.

Gellir gwneud gorchymyn anghymwyso o dan wahanol adrannau o Ddeddf Gwahardd Cyfarwyddwr Cwmni 1986. Bydd y gorchymyn yn penodi cyfnod y gwaharddiad. Am orchmynion a wneir yn erbyn cyfarwyddwr anghymwys cwmni ansolfent, mae'r cyfnod rhwng 2 flynedd o leiaf a 15 mlynedd fan bellaf.

Yn Ebrill 2001 cyflwynwyd ymrwymiadau anghymwyso. Mae'r rhain yn cyfateb yn weinyddol i orchmynion anghymwyso. Gellir rhoi ymrwymiad i'r Ysgrifennydd Gwladol; mae'n cael yr un effaith â gorchymyn anghymwyso, ond nid yw'n cynnwys achos llys.

Pryd gall gwaharddiad ddigwydd?

Pan fydd cwmni wedi methu, mae'r DS (neu YA mewn datodiad gwirfoddol credydwyr, datodiad gweinyddol neu weinyddiad) yn gorfod anfon adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol am ymddygiad yr holl gyfarwyddwr oedd mewn swydd yn y 3 blynedd olaf y bu'r cwmni'n masnachu. Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu a yw o fudd i'r cyhoedd iddo geisio gorchymyn anghymwyso. Os felly, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud cais i'r llys am orchymyn, a bydd y llys yn penderfynu a fydd yn ei ganiatáu.

Enghreifftiau o ymddygiad sy'n gallu arwain at anghymwyso yw:

- parhau i fasnachu er colled i gredydwyr ar adeg pan oedd y cwmni yn ansolfent
- methu cadw cofnodion cyfrifon cywir
- methu paratoi a ffeilio cyfrifon neu anfon adroddiadau i Dy'r Cwmnïau
- methu dychwelyd ffurflenni treth neu dalu i'r Goron unrhyw dreth neu arian arall sy'n ddyledus
- methu cydweithredu â'r DS/YA.

Sut fyddaf i'n gwybod os bydd gorchymyn anghymwyso yn cael ei geisio yn fy erbyn?

Anfonir rhybudd o benderfyniad i wneud cais am orchymyn anghymwyso i'r cyfeiriad diwethaf a roddwyd gennych i Dy'r Cwmnïau neu i'r DS/YA. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud cais am anghymwyso o fewn 2 flynedd i ddyddiad y gorchymyn dirwyn i ben (neu unrhyw ddatodiad gwirfoddol, datodiad gweinyddol neu weinyddiad), oni bai bod y llys yn ymestyn yr amser.

Beth sy'n digwydd ar ôl i gais anghymwyso gael ei wneud?

Bydd y DS yn adrodd i'r llys am ymddygiad y cyfarwyddwyr ac yn anfon copi at bob un ohonoch. Cewch gyfle i roi eglurhad neu resymau i'r llys am eich gweithredoedd. Gallwch wneud hynny drwy ddatganiad o'r gwir (datganiad ysgrifenedig o'r ffeithiau perthnasol wedi'i dyngu ar lw neu ei gadarnhau, fel rheol gerbron cyfreithiwr). Efallai bydd datganiadau o'r gwir gan bobl eraill (fel bancwyr y cwmni, cyfrifyddion a chredydwyr) a gyflwynir fel tystiolaeth i gefnogi achos o'ch plaid neu yn eich erbyn. Wedyn, bydd y llys yn penderfynu a yw eich ymddygiad yn eich gwneud yn anghymwys i weithredu fel rheolwr cwmni ac, os felly, am ba hyd y dylech gael eich gwahardd.

Cynhelir achosion gwahardd o dan gyfraith sifil, ac nid cyfraith troseddau.

Ar unrhyw gam yn y trafodion hyn gallwch roi ymrwymiad i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n cael yr un effaith â gorchymyn anghymwyso a bydd yn rhoi terfyn ar yr achos llys.

4. Achosion troseddol

Pa achosion troseddol a ellir eu cymryd?

Mae'n rhaid i'r DS adrodd unrhyw dystiolaeth o droseddau posibl a ddatgelir wrth iddynt archwilio materion cwmni i Wasanaethau Corfforaethol a Busnes Y Gwasanaeth Ansolfedd. Wedyn, gwneir penderfyniad a ddylid cyfeirio'r mater at Gyfreithwyr (Erlyniadau) Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio neu awdurdod erlyn arall i ystyried dwyn achos.

Dyma enghreifftiau o droseddau posibl:

- Deddf Cwmnïau 1985 - methiant i gadw cofnodion cyfrifon cywir neu fasnachu twyllodrus
- Deddfau Ansolfedd 1986 - cuddio asedau neu wallau sylweddol oherwydd esgeulustod mewn datganiad materion busnes
- Deddf Gwahardd Cyfarwyddwyr Cwmni 1986 - person a anghymhwyswyd neu fethdalwr yn gweithredu neu gymryd rhan mewn rheolaeth cwmni
- Deddf Dwyn - cam-berchnogi arian neu asedau cwmni er mantais bersonol cyfarwyddwr.

Gall y llys hefyd wneud gorchymyn datgymhwyso pan ddedfrydir cyfarwyddwyr am drosedd mewn perthynas â rheoli cwmni.

5. Lle i fynd am ragor o wybodaeth

A phwy y dylech gysylltu

Cyfeiriwch eich cwestiynau ar y gweithdrefnau sydd ynghlwm wrth ansolfedd penodol at eich ymgynghorydd proffesiynol neu'r DS/YA sy'n trafod yr achos.

Nodwch mai dim ond am weinyddiad y datodiad y maent hwy yn ei drin y gall y Gwasanaeth Ansolfedd a Derbynwyr Swyddogol roi gwybodaeth. Ni allant gynnig cyngor cyfreithiol nac ariannol. Lle bo angen, dylech holi am hynny gan gyfreithiwr, cyfrifydd cymwysedig neu ymarferydd ansolfedd awdurdodedig neu ymgynghorydd ariannol cyfrifol.

Gallwch gysylltu â'r Llinell Ymholiadau Ansolfedd gydag ymholiadau cyffredinol ar faterion ansolfedd ar 0845 602 9848 neu anfon e-bost: Insolvency.enquiryline@insolvency.gsi.gov.uk

Beth i'w wneud os nad ydych yn fodlon gyda'r ffordd y deliwyd â'r datodiad

- Os mai Derbynnydd Swyddogol sy'n delio â'r achos, dylech ddilyn y weithdrefn a osodir allan yn ein taflen 'Complaints Procedure - Information on making a complaint' (Trefn Gwyno – Gwybodaeth am sut i wneud cwyn).
- Os mai ymarferydd ansolfedd sy'n delio â'r achos, dylech ddilyn y weithdrefn a osodir allan yn ein taflen 'How to make a complaint against an insolvency practitioner' (Sut i wneud cwyn yn erbyn ymarferydd ansolfedd).

Sut i gael gafael ar fwy o gopïau o gyhoeddiadau'r Gwasanaeth Ansolfedd

Gallwch gael mwy o gopïau o'r cyhoeddiad hwn ar e bost drwy: publications@berr.gsi.gov.uk

Gallwch hefyd archebu copïau o'n cyhoeddiadau dros y ffôn drwy ffonio'r Llinell Archebu Cyhoeddiadau ar 0845 015 0010. Gallwch hefyd ffacsio archebion i'r Llinell Archebu ar 0845 015 0020. Dylai pobl sy'n defnyddio Minicom ffonio 0845 015 0030.

Mae'n holl gyhoeddiadau ar gael ar ein gwefan www.insolvency.gov.uk. Mae rhai ohonynt ar gael yn Urdu ac iaith Canton hefyd. Ar ben hynny, maent ar gael ar dâp sain, os gofynnir am un, o swyddfeydd y derbynnydd swyddogol.

Dyma gyhoeddiadau penodol a allent fod o ddefnydd i chi:

- Company Directors Disqualification Act 1986 and Failed Companies (Deddf Gwahardd Cyfarwyddwyr Cwmni 1986 a Chwmnïau sydd wedi Methu)
- Company Directors Disqualification Act 1986 and Disqualified Directors (Deddf Gwahardd Cyfarwyddwyr Cwmni 1986 a Chyfarwyddwyr wedi'u Gwahardd)
- Disqualified Directors Hotline (Llinell Gyflym Cyfarwyddwyr wedi'u Gwahardd).

6. Gweithdrefnau ansolfedd arall

Dyma amlinelliad cyffredinol o weithdrefnau ansolfedd sy'n cael eu trin gan YAau yn unig (nid DS). Cysylltwch â'ch cyfreithiwr, cyfrifydd /archwiliwr, YA neu eich cynghorydd proffesiynol am wybodaeth bellach. Neu fel arall, cysylltwch â'ch Swyddfa Cyswllt Busnes leol (gweler y llyfr ffôn lleol neu ffoniwch 0845 600 9 006) . Mae ganddynt wefan hefyd ar www.businesslink.gov.uk. Byddant yn gallu rhoi cymorth i chi neu'n eich cyfeirio at rywun fydd yn gallu rhoi cyngor i chi.

Os yw eich cwmni yn wynebu anawsterau ariannol, ac mae ymgais i'w achub ar y gweill, yna po gyntaf y gofynnwch am gyngor po fwyaf fydd eich siawns o lwyddo.

Rhybudd: Yn awr, mae nifer o sefydliadau yn cynnig cyngor ansolfedd. Mae rhai ohonynt yn gwbl gyfrifol ac yn cynnig gwasanaeth proffesiynol. Fodd bynnag, mae eraill yn cael eu rheoli gan unigolion heb gymwysterau amlwg, sydd i'w gweld yn cael eu hysgogi'n bennaf gan yr awydd i fanteisio ar sefyllfa sydd eisoes yn anodd. Yn neilltuol, byddwch yn wyliadwrus os cewch ymholiadau diofyn drwy'r post neu dros y ffôn.

Gweinyddiaeth

Dechreuir y weithdrefn hon gyda phenodiad gweinyddwr a gellir ei defnyddio:
- i achub fel busnes gweithredol cwmni neu bartneriaeth sy'n wynebu problemau ariannol
- i gael gwell canlyniad i gredydwyr y cwmni yn gyfan na fyddai'n digwydd yn sgil dirwyn i ben yn syth
- neu, os nad yw'r naill na'r llall yn bosibl, i realeiddio eiddo er lles credydwyr sicredig neu flaenoriaethol.

Sut penodir gweinyddwr?

Gellir penodi gweinyddwr:
- drwy orchymyn llys, neu
- gan ddeilydd taliad arnawf, y cwmni neu ei gyfarwyddwyr yn ffeilio'r rhybudd gofynnol mewn llys, neu
- drwy apwyntiad "heb orchymyn llys", fel a ganlyn.

Fel dewis arall ar wahân i'r llwybr gorchymyn llys wrth benodi gweinyddwr, cyflwynodd Deddf Menter 2002 lwybr "heb orchymyn llys" i ddalwyr taliadau arnawf a chwmnïau neu gyfarwyddwyr. Mae'r llwybrau hyn yn rhai cyflym ac nid ydynt angen cais na gwrandawiad llys. Mae'r gweinyddwr yn parhau i fod yn swyddog y llys a bydd y dogfennau perthnasol yn cael eu ffeilio gyda'r llys, ond mae'r apwyntiad yn weithredol o'r dyddiad ac amser y mae cwmni, cyfarwyddwr neu ddeilydd taliad arnawf yn ffeilio rhybudd o apwyntiad yn y llys.

Gall cwmnïau a chyfarwyddwyr benodi gweinyddwr drwy'r llwybr "heb orchymyn llys" perthnasol dim ond os na fydd y cwmni heb gael moratoriwm (neu foratoriwm dros dro) o fewn y 12 mis blaenorol.

Gallwch ffeilio rhybudd o apwyntiad hyd yn oed pan fydd y llys ar gau. Dylech ffacsio'r rhybudd o apwyntiad (ffurflen 2.7B) i rif penodedig yn yr Uchel Lys, o'r lle y mae'n cael ei anfon i'r llys a fydd yn delio â'r gweinyddiad. Yno, mae'n cael ei roi ar ffeil y llys. Mae apwyntiad y gweinyddwr yn effeithiol o'r amser yr ydych yn ffacsio'r rhybudd hwn i'r Uchel Lys. Er nad oes angen i chi ffacsio'r holl ddogfennau perthynol gyda'r rhybudd, rhaid i chi gyflwyno'r rhybudd gwreiddiol a'r holl ddogfennau cefnogi angenrheidiol ar y diwrnod cyntaf y mae'r llys priodol yn agored am fusnesa ar ôl i'r rhybudd gael ei ffeilio. Bydd y llys wedyn yn cadarnhau'r rhybudd a bydd y gweinyddiad yn parhau i fod yn weithredol. Os nad ydych wedi cydymffurfio â'r gofyniad hwn drwy gyflwyno'r rhybudd a dogfennau i'r llys erbyn diwedd busnes ar y diwrnod hwnnw, bydd penodiad y gweinyddwr yn dod i ben a bydd y gweinyddiad, felly, yn dod i ben.

Pryd mae angen gorchymyn llys?

Gall deilydd taliad arnawf neu'r cwmni neu'r cyfarwyddwyr wneud cais am orchymyn gweinyddu os ydynt yn dewis peidio defnyddio'r llwybr 'heb orchymyn llys'. A gorchymyn llys yw'r unig fodd o hyd i gredydwr, sydd yn gweithredu ar ei ben ei hun neu ar ran credydwyr ychwanegol, neu arolygydd Trefniant Gwirfoddol Cwmni, roi cychwyn ar benodiad gweinyddwr i gwmni.

Mae angen gorchymyn llys ar gyfer pob penodiad gweinyddwr os bydd :
- y cwmni mewn datodiad (lle gall y llys roi terfyn ar y datodiad a gwneud gorchymyn gweinyddu yn ei le), neu
- mae derbynnydd gweinyddol yn ei le, neu
- penodwyd datodwr dros dro, neu mae deiseb dirwyn i ben yn parhau yn ei lle yn erbyn y cwmni (yn achos y cwmni neu ei gyfarwyddwr).

Beth mae'r gweinyddwr yn ei wneud?

Mae'r gweinyddwr (YA) yn cyflwyno cynigion i'r credydwyr eu hystyried:
- i adfer hyfywedd y cwmni
- i ddod i gytundeb gyda'r credydwyr,
- gwerthu'r busnes fel busnes hyfyw neu wireddu mwy o'r asedau na cheid drwy ddatodiad, neu
- i wireddu asedau i dalu credydwr sicredig neu flaenoriaethol.

Pa mor hir y mae gweinyddiaeth yn parhau?

Bydd y gweinyddwr yn dod i ben yn awtomatig ar ôl blwyddyn oni bai bod y gweinyddwr yn gwneud cais i'r llys i ymestyn ei gyfnod dyletswydd. Gellir ymestyn y gweinyddiad dim ond hyd at chwe mis yn unig.

Derbynyddiad gweinyddol

Mae hyn yn dilyn deilydd taliad arnawf (banc, fel rheol) yn penodi derbynnydd gweinyddol (YA) i adennill arian sy'n ddyledus iddo. Nid yw'r llys yn ymwneud â hyn fel rheol. Yn aml, dywedir fod cwmni mewn derbynyddiad gweinyddol ‘yn nwylo’r derbynnydd". Gwaith y derbynnydd gweinyddol yw adennill digon o arian i dalu:
- ei gostau ef/hi
- y credydwyr blaenoriaethol, a
- dyled y deilydd taliad arnawf.

Nid yw derbynnydd gweinyddol yn gwneud taliadau i gredydwyr ansicredig.

O dan Ddeddf Menter 2002, gall dalwyr taliad arnawf a grëwyd ar ôl 15 Medi 2003 benodi derbynnydd gweinyddol dim ond mewn perthynas â thaliadau arnawf a roddwyd mewn perthynas â:
- rhai trafodion neilltuol yn y farchnad gyfalaf
- partneriaethau cyhoeddus/preifat
- prosiectau gwasanaethau
- prosiectau ariannol
- marchnadoedd ariannol, a
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

Trefniant gwirfoddol i gwmni

Mae'r weithdrefn hon yn caniatáu i gwmni sydd mewn trafferthion ariannol i ddod i gytundeb sy'n rhwymo gyda chredydwyr am dalu'r cyfan, neu ran, o'i ddyledion dros gyfnod o amser. Gellir cynnig TGC gan:

- y gweinyddwr pan fydd y cwmni yn cael ei weinyddu; neu'r
- datodwr, pan fydd y cwmni yn cael ei ddirwyn i ben; neu'r
- cyfarwyddwyr, o dan amgylchiadau eraill.

Ni all y credydwyr na chyfranddalwyr gynnig TGC.

Cyn gwneir y cynnig, gellir gwneud cais i'r llys am foratoriwm sydd yn atal credydwyr rhag cymryd camau gweithredol yn erbyn y cwmni na'i eiddo am hyd at 28 diwrnod. Os bydd gweinyddwr yn ei swydd bydd y cwmni eisoes yn destun gohiriad sydd yn codi o'r gweinyddiad.

Pan fydd y trefniant wedi cael ei gynnig, mae enwebai (sy'n gorfod bod yn ymarferydd ansolfedd) yn adrodd i'r llys am y mater o a ddylid cynnal cyfarfod o'r credydwyr a'r cyfranddalwyr i ystyried y cynnig.

Mae'r cyfarfod yn penderfynu a yw am gymeradwyo'r trefniant gwirfoddol. Os bydd 75% o'r credydwyr sydd yn bresennol neu drwy ddirprwy, yn cytuno â'r cynnig, yna fe'i derbynnir ac yna mae hynny'n ymrwymo pob credydwr a oedd yn meddu hawl pleidleisio neu a fyddai â hawl pleidleisio pe gawsant rybudd.

Os bydd cyfarfod o gredydwyr a chyfranddalwyr yn cymeradwyo trefniant gwirfoddol, mae'r enwebai (neu ymarferydd ansolfedd arall), yn dod yn oruchwyliwr y trefniant.

Unwaith bydd y TGC wedi cael ei weithredu, mae rhwymedigaeth y cwmni i'w gredydwyr (a gafodd rybudd o'r cyfarfod credydwyr) wedi'i glirio. Gall y cwmni barhau i fasnachu yn ystod y TGC ac ar ôl hynny. Gellir sefydlu TGC pan fydd cwmni mewn datodiad neu weinyddiad, yn ogystal ag unrhyw adeg arall.

Datodiad gwirfoddol credydwyr

Mae'r weithdrefn hon yn caniatáu i gwmni ansolfent roi ei hun mewn datodiad. Dechreuir hyn gyda'r cyfarwyddwyr (nid y credydwyr) yn galw cyfarfod o gyfranddalwyr sy'n cytuno i ddirwyn y cwmni i ben. Gall y cyfranddalwyr enwebu YA i weithredu fel datodwr, ond gwneir y dewis olaf gan y credydwyr yn eu cyfarfod. Nid yw'r weithdrefn yn ymwneud â'r llys, fel rheol.

Datodiad gwirfoddol aelodau

Mae'r weithdrefn hon yn caniatáu i gwmni diddyled roi ei hun mewn datodiad, lle, er enghraifft, mae busnes teuluol yn cael ei werthu neu mae pwrpas y cwmni wedi dod i ben. Mae'r aelodau (cyfranddalwyr) yn penodi eu dewis hwy o YA fel datodwr. Nid oes rhaid hysbysu credydwyr. Rhaid i'r cwmni allu talu ei ddyledion yn llawn o fewn 12 mis. Os yw'r datodwr yn ystyried nad yw hynny'n bosibl, rhaid cynnal cyfarfod credydwyr ac mae'r datodiad yn troi'n ddatodiad gwirfoddol credydwyr.

7. Termau ansolfedd

Dyma eglurhad byr o rai o'r termau y byddwch yn dod ar eu traws mewn achosion ansolfedd. Nodwch mai ystyron cyffredinol a geir yn y rhestr dermau hon. Mae gan lawer o'r termau ystyr dechnegol benodol mewn rhai cyd-destunau nad ydynt, o bosibl, yn cael eu trafod yma.

Gorchymyn gweinyddu
Gorchymyn wedi'i wneud mewn llys sirol i drefnu a gweinyddu talu dyledion gan unigolyn; neu orchymyn wedi'i wneud gan lys mewn perthynas â chwmni sy'n penodi gweinyddwr i gymryd rheolaeth dros y cwmni. Gall cwmni hefyd gael ei roi mewn gweinyddiaeth os yw deilydd taliad arnawf neu gyfarwyddwyr y cwmni ei hun, yn ffeilio'r rhybudd angenrheidiol mewn llys.

Derbynnydd gweinyddol
YA a benodwyd gan ddeilydd dyledeb sydd wedi'i sicrhau gan daliad arnawf sy'n cynnwys y cyfan neu bron y cyfan o asedau'r cwmni. Tasg yr YA yw gwireddu'r asedau hynny ar ran deilydd y ddyledeb.

Derbynyddiad gweinyddol
Lle mae deilydd y ddyledeb (benthyciwr) yn penodi ymarferydd ansolfedd i wireddu asedau cwmni a thalu credydwyr blaenoriaethol a dyled y benthyciwr. Mae hawl deilydd dyledeb i benodi derbynnydd gweinyddol wedi cael ei gyfyngu gan Ddeddf Menter 2002.

Gweinyddwr
YA a benodwyd gan y llys dan orchymyn gweinyddu neu gan ddeilydd taliad arnawf neu'r cwmni neu ei gyfarwyddwyr yn ffeilio'r rhybudd angenrheidiol yn y llys.

Dirymiad
Diddymiad.

Asedau
Unrhyw beth sy'n eiddo i'r dyledwr y gellir ei ddefnyddio i dalu ei d/ddyledion.

Gorchymyn neu ymrwymiad cyfyngiadau methdaliad
Gweithdrefn lle bydd methdalwr sydd wedi bod yn anonest neu sydd rywsut arall i'w feio am ei f/methdaliad yn cael gorchymyn llys yn ei h/erbyn neu'n rhoi ymrwymiad i'r Ysgrifennydd Gwladol; bydd y gorchymyn neu'r ymrwymiad yn golygu fod cyfyngiadau'r methdaliad yn parhau ar ôl rhyddhau am gyfnod o rhwng 2 a 15 mlynedd.

Arwystl
Budd sicrwydd wedi'i gaffael mewn eiddo gan gredydwr er mwyn gwarchod yn erbyn peidio â thalu dyled (megis morgais). Os nad yw'r dyledwr yn talu'r ddyled, yna mae gan y credydwr yr hawl i gymryd yr eiddo.

Deddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986
Deddf Seneddol am anghymhwyso cyfarwyddwyr.

Datodiad gorfodol
Dirwyn cwmni i ben ar ôl deiseb i'r llys, gan gredydwr fel arfer.

Cyfrannol
Pob person sy'n rhwymedig i gyfrannu tuag at asedau cwmni os caiff ei ddirwyn i ben. Yn y rhan fwyaf o achosion mae hyn yn golygu cyfranddalwyr nad ydynt wedi talu'n llawn am eu cyfranddaliadau.

Credydwr
Rhywun y mae'r methdalwr neu'r cwmni mewn dyled ariannol iddo/i.

Dyledeb
Dogfen ysgrifenedig, dan sêl fel arfer, a gyhoeddir fel tystiolaeth o ddyled neu ganiatáu sicrwydd am fenthyciad o swm penodedig ar log (neu'r ddau). Defnyddir y term yn aml mewn perthynas â benthyciadau (gan fanciau fel arfer) wedi'u sicrhau gan daliadau, yn cynnwys taliadau arnawf, dros asedau cwmnïau.

Cyfarwyddwr
Unigolyn sy'n rhedeg materion cwmni.

Anghymwyso
Gweithdrefn lle gwneir gorchymyn llys yn erbyn person neu mae'n rhoi ymrwymiad i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gwneud hi'n drosedd i'r person hwnnw ymwneud â rheolaeth neu gyfarwyddiaeth cwmni am gyfnod a nodir yn y gorchymyn (oni bai bod y llys yn rhoi caniatâd).

Difidend
Unrhyw swm a rennir i gredydwyr ansicredig mewn achos o ansolfedd.

Taliad sefydlog
Taliad a godir am asedau penodol. Ni all y dyledwr werthu'r asedau heb ganiatâd y credydwr sicredig neu ad-dalu'r swm a sicrhawyd drwy'r taliad.

Taliad arnawf
Arwystl a osodir ar asedau cyffredinol y cwmni. Gall yr asedau newid (fel stoc) a gall y cwmni ddefnyddio'r asedau heb ganiatâd y credydwr sicredig nes bod yr arwystl yn "crisialu" (yn dod yn sefydlog). Mae crisialu yn digwydd ar benodiad derbynnydd gweinyddol, pan gyflwynir deiseb dirwyn i ben neu fel darperir fel arall yn y ddogfen sy'n creu arwystl.

Gwarant
Cytundeb i dalu dyled sy'n ddyledus gan drydydd parti. Rhaid cael tystiolaeth ysgrifenedig o hyn er mwyn gallu ei orfodi.

Ymarferydd ansolfedd (YA)
Ymarferydd ansolfedd – unigolyn wedi ei awdurdodi ac sy'n arbenigo mewn ansolfedd, fel rheol yn gyfrifydd neu'n gyfreithiwr. Bydd wedi ei awdurdodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol Diwydiant a Masnach neu gan un o nifer o gyrff proffesiynol cydnabyddedig.

Datodiad (dirwyn i ben)
Mae hwn yn berthnasol i gwmnïau neu bartneriaethau. Mae'n golygu gwireddu a dosbarthu'r asedau ac fel arfer cau'r busnes i lawr. Mae tri math o ddatodiad: gorfodol, gwirfoddol credydwyr a gwirfoddol aelodau.

Datodwr
Y Derbynnydd Swyddogol neu Ymarferydd Ansolfedd a benodwyd i weinyddu datodiad cwmni neu bartneriaeth.

Aelod (cwmni)
Person sydd wedi cytuno i fod, ac sydd wedi'i gofrestru, yn aelod, megis cyfranddaliwr cwmni cyfyngedig.

Moratoriwm
Atal gweithgaredd am gyfnod cytunedig.

Enwebai
YA sy'n gwneud y gwaith paratoi ar gyfer trefniant gwirfoddol, cyn iddo gael ei weithredu.

Swyddog (cwmni)
Cyfarwyddwr, rheolwr neu ysgrifennydd cwmni.

Derbynnydd Swyddogol (OR)
Swyddog o'r llys a gwas sifil a gyflogir gan y Gwasanaeth Ansolfedd, sy'n delio gyda methdaliadau a datodiadau gorfodol cwmnïau.

Person
Unigolyn neu gorfforaeth.

Deiseb.
Cais ffurfiol a wneir i lys.

Credydwr blaenoriaethol
Credydwr mewn gweithrediadau methdalu sydd â hawl i dderbyn rhai taliadau cyn credydwyr ansicredig eraill. Mae'r credydwyr hyn yn cynnwys cynlluniau pensiwn galwedigaethol a gweithwyr cyflogedig.

Prawf o ddyled
Ffurflen statudol sy'n cael ei chwblhau gan credydwr mewn methdaliad neu ddatodiad gorfodol i nodi faint y mae'n ei hawlio. Caiff y ffurflen ei darparu gan yr ymddiriedolwr neu'r datodwr.

Datodwr dros dro
DS/AY a benodir i gadw asedau cwmni nes gwrandawiad y ddeiseb dirwyn i ben.

Dirprwy
Yn lle bod yn bresennol mewn cyfarfod, gall person benodi rhywun i fynd i bleidleisio yn ei l/lle – 'dirprwy'.

Ffurflen dirprwy
Ffurflen y mae'n rhaid ei llenwi os yw credydwr yn dymuno bod rhywun arall yn ei g/chynrychioli mewn cyfarfod credydwyr a phleidleisio ar ei r/rhan.

Archwiliad cyhoeddus
Pan fydd cwmni'n cael ei ddirwyn i ben neu mewn gweithdrefnau methdaliad, gall yr YA ar unrhyw bryd wneud cais i'r llys i holi cyfarwyddwr(wyr) y cwmni neu unrhyw berson arall sydd wedi cymryd rhan wrth hyrwyddo, ffurfio neu reoli'r cwmni neu'r methdalwr.

Gwireddu
Mae gwireddu ased yn golygu ei werthu neu ei waredu er mwyn codi arian, er enghraifft, gwerthu asedau unigolyn ansolfent a chael y derbyniadau.

Derbynnydd
Yr enw a ddefnyddir yn gyffredin am dderbynnydd gweinyddol. Fodd bynnag, gall 'derbynnydd' hefyd olygu person wedi'i benodi gan y llys gyda'r grym i dderbyn rhenti ac elw eiddo. Nid oes rhaid i dderbynyddion nad ydynt yn dderbynyddion gweinyddol fod yn Ymarferwyr Ansolfedd.

Derbynyddiad
Yn aml, dywedir fod cwmni mewn derbynyddiad gweinyddol 'yn nwylo'r derbynnydd'.

Rhyddhau
Y broses o ryddhau'r Derbynnydd Swyddogol neu Ymarferydd Ansolfedd o rwymedigaethau'r swydd o fod yn ymddiriedolwr/datodwr neu weinyddwr.

Diddymiad
Gweithdrefn sy'n canslo gorchymyn dirwyn i ben.

Ysgrifennydd Gwladol
Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Masnach a Diwydiant, Mentera Diwygio Rheoleiddio (BERR).

Credydwr sicredig
Credydwr sy'n dal sicrwydd, megis morgais, dros asedau person am arian sy'n ddyledus.

Cyfarwyddwr cysgodol.
Unigolyn sydd, heb gael ei benodi'n ffurfiol, yn rhoi cyfarwyddiadau ynghylch pa gyfarwyddwyr cwmni sy'n gyfarwydd â gweithredu.

Datganiad materion busnes
Dogfen wedi'i thyngu ar lw, wedi'i chwblhau gan fethdalwr, swyddog neu gyfarwyddwr(wyr) cwmni, yn datgan yr asedau ac yn rhoi manylion y dyledion a'r credydwyr.

Arolygydd
YA wedi'i benodi i arolygu cynnal trefniant gwirfoddol unigol neu gwmni.

UNICTRAL
Comisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith Masnach Rhyngwladol.

Credydwr ansicredig.
Credydwr nad yw'n dal sicrwydd (megis morgais) am arian sy'n ddyledus. Gall rhai credydwyr ansicredig hefyd fod yn gredydwyr blaenoriaethol.

Datodiad gwirfoddol
Dull o ddatodiad nad yw'n cynnwys y llysoedd neu'r DS. Mae 2 fath o ddatodiad gwirfoddol: datodiad gwirfoddol aelodau i gwmnïau diddyled a datodiad gwirfoddol credydwyr i gwmnïau ansolfent.

Gorchymyn dirwyn i ben
Gorchymyn llys yn seiliedig fel arfer ar ddeiseb credydwr, i ddirwyn i ben neu ddatod cwmni neu bartneriaeth yn orfodol.

8. Deddf Diogelu Data 1998 - Sut yr ydym yn casglu a defnyddio gwybodaeth

Y Derbynnydd Swyddogol yw'r Rheolwr Data i ddibenion y Ddeddf uchod.

Mae'r Derbynnydd Swyddogol yn casglu gwybodaeth amdanoch i ddibenion cyflawni ei swyddogaethau statudol mewn perthynas â datodiad cwmni yr ydych, neu yr ydych wedi bod, yn gyfarwyddwr ohono. Gall y DS wirio gwybodaeth a roddwyd gennych, neu wybodaeth amdanoch a roddwyd gan drydydd parti, yn erbyn gwybodaeth arall a gedwir ganddo. Gall hefyd gael gwybodaeth amdanoch gan drydydd partïon neilltuol, neu roi gwybodaeth iddynt, i wirio cywirdeb yr wybodaeth, i atal neu ganfod trosedd neu i weithredu ei ddyletswyddau statudol.

Ni fydd yn datgelu gwybodaeth amdanoch i unrhyw un tu allan i'r Gwasanaeth Ansolfedd oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddo wneud hynny.

Mae gan unigolion hawl i wybod pa wybodaeth sydd gan y Derbynnydd Swyddogol/Gwasanaeth Ansolfedd amdanynt ar y cyfrifiadur a ffeiliau papur sydd yn rhan o system ffeilio berthnasol. Fodd bynnag, nid oes raid i ni ddatgelu gwybodaeth i chi a fyddai'n debygol o rwystro'r Derbynnydd Swyddogol rhag cyflawni ei swyddogaethau; lluniwyd y swyddogaethau hyn i ddiogelu'r cyhoedd rhag colled ariannol oherwydd twyll, camymddwyn neu ymddygiad amhriodol o'r fath gan, neu anghymwyster neu anallu pobl sy'n ymwneud â rheolaeth cwmnïau. Bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a ddelir amdanoch gan y Derbynnydd Swyddogol wedi ei chaffael drwy'r holiadur a lenwyd gennych a datganiadau a wnaethoch i'r Derbynnydd Swyddogol mewn perthynas â'r datodiad neu o wybodaeth a ddelir gan y Cofrestrydd Cwmnïau. Wrth gwrs, byddwch yn gyfarwydd â'r wybodaeth hon eisoes ond byddwch yn medru gwirio ei chywirdeb os ydych yn dymuno gwneud hynny.

Os ydych eisiau gwybod mwy am ba wybodaeth a gedwir amdanoch, neu i ba bwrpas y cedwir hi, dylech gysylltu â'r Swyddog Cydlynu Diogelu Data (SCDD) yn swyddfa'r DS oedd yn delio â'r datodiad. Bydd y SCDD yn ysgrifennu atoch gyda manylion llawn y math o wybodaeth y gellir ei rhoi i chi. Bydd ef hefyd yn rhoi ffurflen safonol gwneud cais am ddata i chi ei llenwi a'i dychwelyd gyda ffurfiau priodol o brawf adnabod. Pan dderbynnir eich ffurflen gais, bydd gan y Swyddog Cydlynu Diogelu Data 40 diwrnod i ddelio â'ch cais. Pan dderbyniwch yr wybodaeth, os dowch ar draws unrhyw gamgymeriad /neu anwiredd dylech ysgrifennu, yn y lle cyntaf, at y SCDD gyda manylion llawn.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am Ddeddf Diogelu Data 1998 gan y Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire SK9 5AF (Ffôn: 08456 306060) Rhyngwe: www.ico.gov.uk.

© c Hawlfraint y Goron 2008.

Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn yn cael ei diogelu gan hawlfraint y Goron. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hawlfraint y Goron yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng heb fod angen caniatâd penodol. Mae hyn yn amodol ar atgynhyrchu'r deunydd yn gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn dull diraddiol neu mewn cyd-destun camarweiniol. Lle mae'r deunydd yn cael ei gyhoeddi neu ei roi i eraill, dylid cydnabod y ffynonellau a statws yr hawlfraint. Pe byddai cyfyngiad ar atgynhyrchu, byddai unrhyw ddefnydd arfaethedig arall o'r deunydd yn amodol ar gymeradwyaeth Llyfrfa Ei Mawrhydi. Dylid cyflwyno ceisiadau i: HMSO's Licensing and Information Policy Team, The Office of Public Sector Information, St Clements House, 2-16 Colegate, Norwich NR3 1BQ. Ffôn: 01603 621000 Ffacs: 01603 723000.

Nid yw'r caniatâd i atgynhyrchu deunydd hawlfraint y Goron yn ymestyn i unrhyw ddeunydd yn y llyfryn hwn sy'n cael ei gydnabod fel hawlfraint trydydd parti. Byddai angen awdurdodiad i atgynhyrchu deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw. Am ragor o fanylion ar drwyddedu hawlfraint y Goron, gweler y canllawiau cyfredol ar
http://www.opsi.gov.uk/advice/crown-copyright/copyright-guidance/index.htm
a gyhoeddwyd gan Y Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus ar gyfer HMSO

Gallwch gael copïau ychwanegol o'r llyfryn hwn o'r wefan isod:
http://www.dti.gov.uk/publications

Gallwch hefyd archebu copïau o'n cyhoeddiadau dros y ffôn drwy ffonio'r Llinell Archebu Cyhoeddiadau ar 0845 015 0010. Gallwch hefyd ffacsio archebion i'r Llinell Archebu ar 0845 015 0020. Dylai pobl sy'n defnyddio Minicom ffonio 0845 015 0030.

Mae cyhoeddiadau ar gael hefyd ar ein gwefan www.insolvency.gov.uk

URN 08-1046